WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dyddiad: 19 Rhagfyr 2012
Ein cyf: HVT/1790/fgb
Tudalen: 1 o 3

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Annwyl Darren

**ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL 2011-12 YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL**

Yn ei gyfarfod ar 2 Hydref 2012 a gynhaliwyd i ystyried fy Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ar gyfer 2011-12, gofynnodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i mi ei ddiweddaru cyn y Nadolig am:

- welliannau i'n gweithdrefnau rheoli ariannol;
- gwelliannau i'n trefniadau caffael; ac
- ein trafodaethau gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi am TAW a rhwymedigaethau treth eraill.

Yn Atodiad 1, rwyf wedi cynnwys diweddariad byr am y datblygiadau. Hyderaf y bydd o ddefnydd i chi.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os bydd unrhyw ymholiadau gennych neu gan unrhyw aelod arall o'r Pwyllgor, neu os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

*Amg*

Llinell Uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost: huw.vaughan.thomas@wao.gov.uk

100% recycled paper
100% o bapur a ailgylchwyd

**Gwelliannau i'n gweithdrefnau rheoli ariannol**

Rwy'n falch i gadarnhau ein bod wedi parhau i wella ein gweithdrefnau rheoli ariannol ac adrodd ariannol ers mis Hydref, a chawsom ein cynorthwyo yn hynny o beth gan y cyngor a gawsom gan ein swyddogion anweithredol. Mae'r meysydd y canolbwyntiwyd arnynt wedi cynnwys gwaith proffilio gwell ar ein hincwm sydd wedi'i gyllidebu a datblygu fformatau adrodd newydd er mwyn darparu adroddiadau cliriach a mwy canolbwyntiedig i'r pwyllgorau gweithredol ac anweithredol.

Mae'r canllawiau a'r gweithdrefnau yn ein Llawlyfr Rheoli Ariannol newydd yn cael eu hatgyfnerthu gan ddigwyddiadau hyfforddiant penodol a gynhelir yn y Flwyddyn Newydd wedi'u targedu at yr oddeutu 70 o ddeiliaid cyllideb a rheolwyr prosiect sydd gennym.

**Gwelliannau i'n trefniadau caffael**

Rydym wedi cryfhau ein trefniadau caffael ar draws Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys:

- mecanweithiau diwygiedig ar gyfer adrodd er mwyn adnabod, mewn da bryd, broblemau posibl a allai godi ac a allai fod mewn perygl o beidio â chydymffurfio â phrosesau caffael mewnol Swyddfa Archwilio Cymru a rhai'r UE, er mwyn cymryd y camau unioni angenrheidiol; a
- rheolaethau, mecanweithiau cymeradwyo a threfniadau adrodd newydd lle bernir bod camau tendro sengl yn angenrheidiol.

Fel yn achos rheoli ariannol, caiff hyfforddiant manwl ar y trefniadau newydd hyn ei ddarparu i ddeiliaid cyllideb yn y Flwyddyn Newydd.

**Ein trafodaethau gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi - TAW**

Rwyf newydd gael dyfarniad gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi y dylwn beidio â chodi TAW ar bethau a gyflenwir i gyrff llywodraeth leol. Fodd bynnag, nid oedd y dyfarniad yn cynnwys nifer o bwyntiau hanfodol, sef

- o ba ddyddiad y dylwn beidio â chodi TAW ar bethau a gyflenwir i gyrff llywodraeth leol;
- a ddylwn barhau i godi TAW ar bethau a gyflenwir i gyrff y GIG, ac os felly, y dyddiad pan ddaw'r newid arfaethedig i rym; ac
- a yw Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn bwriadu codi asesiad ar gyfer unrhyw rwymedigaethau hanesyddol (bydd aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cofio fy mod wedi cynnwys darpariaeth o £2.4 miliwn yn fy nghyfrifon ar gyfer 2011-12 i gyflenwi'r rhwymedigaeth bosibl hon).

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi dweud wrthyf y gallaf ddisgwyl dyfarniad pellach ar y pwyntiau hyn yn fuan iawn.

**Ein trafodaethau gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi – trethi Cyflogaeth**

Mae fy staff wedi darparu dadansoddiadau ac adroddiadau manwl i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi am y meysydd pryder yr oeddem wedi'u nodi yng nghyfrifon 2011-12. Rwy'n gobeithio y bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn awgrymu beth fydd ei safiad tebygol ar y materion penodol hyn yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

Rwy'n falch fodd bynnag ei bod yn ymddangos ein bod ni bellach yn gwneud cynnydd gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi o ran datrys nifer o broblemau treth sy'n bodoli ers amser hir, er nad ydym wedi setlo'r mater yn derfynol eto. Awgrymaf felly fy mod yn ysgrifennu atoch erbyn 31 Mawrth 2013 er mwyn rhoi diweddariad pellach.